**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion o Gyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 31ain Ionawr 2011 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 2yp.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cyngh E C George (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyngh D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngh E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngh W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyngh D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngh G O Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Halstead (Pennaeth Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; K V Williams (Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; V Stevens (KPMG); V DeZouche (KPMG); C Dingle (Rheolwr Cyllid); G Jones (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Cyngh P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyngh M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngh A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| C Everett | Clerc |

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

1.1 Datganodd y Cyngh E C George ddiddordeb fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam parthed y benthyciad cyhoeddus gan Awdurdodau Lleol.

2 COFNODION

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain o Fedi 2010 fel cofnod cywir. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH BUDDSODDIAD A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

3.1 Diben yr adroddiad oedd cyflwyno'r Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Buddsoddiad a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw i'r Aelodau ar gyfer 2011/12. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau archwiliad effeithiol o strategaeth a pholisïau rheoli'r trysorlys, ac yn seiliedig ar eu darganfyddiadau, wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub.

3.2 Manylodd Sandra Forrest ar yr adroddiad gyda chymorth cyflwyniad Powerpoint, oedd yn egluro'r agweddau gwahanol o'r dangosyddion darbodus, strategaeth rheoli'r trysorlys, strategaeth buddsoddiad a'r polisi darpariaeth isafswm refeniw

3.3 Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ar y strategaethau a fanylwyd yn yr adroddiad i sicrhau eu dealltwriaeth ac ar ôl archwilio'r adroddiad yn effeithiol, roeddynt wedi eu bodloni eu bod yn gallu argymell fod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

3.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pedair elfen allweddol yr adroddiadau, ac argymell y canlynol i'r Awdurdod Tân ac Achub:**

**(i) Dangosyddion Darbodus;**
**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2011/12;**
**(iii) Strategaeth Buddsoddiad;**
**(iv) Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw**

4 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2008-2012

4.1 Eglurodd Mike Halstead i'r Aelodau mai strategaeth gyffredinol Archwiliad Mewnol yw:

"Cyflwyno cynllun archwilio sy'n seiliedig ar risg mewn modd proffesiynol, annibynnol, er mwyn daprau barn i'r sefydliad ar y lefel o sicrwydd gall roi ar yr amgylchedd reoli fewnol, ac i wneud argymhellion i'w wella."

4.2 Mae'r swyddogaeth archwilio'n cael ei gwneud gan Gyngor Bwrdeistref Cyngor Conwy fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth Cyllidol, gyda 50 diwrnod y flwyddyn yn cael ei dyrannu ar gyfer dibenion archwilio. Ymgymerwyd ag asesiad anghenion archwilio i gynhyrchu'r rhaglen gyfredol a neilltuwyd cyfraddau risg yn erbyn yr holl weithgareddau. Bydd y rhaglen o waith cyfredol yn dod i ben yn 2012.

4.3 Er bod rhai gweithgareddau wedi eu graddio fel risg 'A', eglurwyd nad oeddynt i gyd wedi cael eu harchwilio oherwydd eu bod yn cael eu monitro yn rheolaidd. Mae'r tîm Archwilio'n cadw gwybodaeth am y sefydliad drwy fonitro anffurfiol o bapurau'r pwyllgor. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda KPMG hefyd, y darparwr archwilio allanol.

4.4 Hysbysodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr Aelodau fod y rheolwyr yn adnabod ardaloedd o bryder weithiau ac yn gofyn i'r Tîm Archwilio archwilio a rhoi sicrwydd neu argymhellion.

4.5 Yn dilyn yr archwiliad cychwynnol, bydd archwiliad dilynol yn cael ei wneud 6-9 mis yn ddiweddarach ac os nad oedd unrhyw welliant yn yr ardaloedd o bryder, byddai'r rhain yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio.

4.6 **PENDERFYNWYD nodi Strategaeth Archwilio Mewnol 2008-2012.**

5 LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

5.1 Cyflwynodd Virginia Stevens o KPMG y llythyr archwilio blynyddol i'r Pwyllgor. Yn unol gyda'r Mesur Llywodraeth Leol diweddar, bydd y mwyafrif o'r materion oedd yn cael eu hadrodd yn draddodiadol yn y llythyr archwilio blynyddol yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn y dyfodol.

5.2 Nodwyd fod y llythyr wedi cael ei ysgrifennu cyn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ym mis Rhagfyr pan wnaed penderfyniadau am y gyllideb. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod KPMG wedi derbyn diweddariad am y strategaeth ariannol tymor canolig a sut fyddai'r Awdurdod yn cyfeirio at yr angen i ostwng y gyllideb dros y tair blynedd nesaf.

5.3 **PENDERFYNWYD derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol a nodi y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol.**

Diolchodd y Cadeirydd i dîm Archwilio a Chyllid Conwy am eu gwaith a chefnogaeth barhaol i'r Pwyllgor a'r Awdurdod.